

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Penyrheol

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Penyrheol yn ysgol gynhwysol a chroesawgar sy'n darparu amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu cyffrous ar gyfer disgyblion. Mae staff yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd sy'n ennyn eu diddordeb, yn ysgogi eu chwilfrydedd ac yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda. Oherwydd hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu cyfnod yn yr ysgol ac yn dangos graddau uchel o frwdfrydedd mewn gwersi.

Mae athrawon yn meithrin dysgu blaenorol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio gwersi cymhellol sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn raddol, gan ddefnyddio gweithgareddau pwrpasol sy'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion. Mae athrawon ar draws yr ysgol yn darparu lefel briodol o gymorth a her sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau dros gyfnod. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyfle i ddisgyblion ddysgu'n annibynnol. Mae staff yn holi disgyblion i asesu eu cynnydd ac ymestyn eu meddwl yn effeithiol. Maent yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion sy'n eu helpu i ymestyn eu dysgu'n llwyddiannus.

Mae staff wedi sefydlu perthnasoedd cadarnhaol â rhieni a gyda phartneriaid yn y gymuned leol. Maent yn adeiladu ar y rhain i gyfoethogi'r cwricwlwm yn fuddiol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i thir a'i hardal leol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r amgylchedd ac o'u treftadaeth a'u hunaniaeth Gymreig. Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn dda ac yn meithrin agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at siarad Cymraeg.

Mae arweinwyr ac athrawon yn gosod disgwyliadau uchel iddyn nhw eu hunain ac ar gyfer cynnydd disgyblion, a'u hagweddau at ddysgu. Maent yn modelu'r rhain yn gyson dda. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda ac mae pob aelod o'r tîm staff yn dangos ymrwymiad proffesiynol cryf i'w rôl. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygiad yr ysgol. Maent yn canolbwyntio'n fuddiol ar sicrhau addysgu sy'n gyson effeithiol ac wedi creu hinsawdd lle mae pob un o'r staff yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu eu harfer ymhellach.

# Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau am eu dysgu a gweithio ag annibyniaeth

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Penyrheol |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 225 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 174 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 30 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 29.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 39.1% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.9% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2001 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 12/10/2015 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 26/02/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/05/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.